



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

YSGRIFENNU TRIAWD

Dylunio a chreu deunydd dwyieithog sydd ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Mawrth 2024

Cefndir

Er bod Mesur y Gymraeg wedi arwain at gynnydd mewn gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd, mae'r defnydd a wneir ohonynt yn parhau yn gymharol isel os yn ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn debygol o fod defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae hyn yn dangos felly nad ydi darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg ar ben ei hun yn ddigon i ysgogi'r defnydd ohonynt.

Mae cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg yn un o flaenoriaethau strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae Safonau Gwasanaeth Digidol ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn nodi'r angen i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel safon graidd gan amlygu'r angen i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cyhoeddus digidol. Ymatebodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CGCD) i hyn drwy adolygu a gwella ei phroses ddylunio cynnwys Cymraeg a dwyieithog.

Pam bod angen newid?

Mae adborth gan siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg yn dangos eu bod o'r farn nad yw gwasanaethau Cymraeg mor ddibynadwy, mor ddealladwy nac yr un mor hygyrch â'r gwasanaethau Saesneg. O ganlyniad, gwelir tueddiad lle bo ddefnyddwyr Cymraeg yn aml yn troi at ac yn defnyddio'r gwasanaethau Saesneg, er bod fersiwn Cymraeg ar gael iddynt.

Gwnaeth CGCD ymchwil gyda defnyddwyr gwasanaethau ar faes yr Eisteddfod yn 2022. O sampl o 144 o ddefnyddwyr Cymraeg a ddefnyddiodd wasanaethau ar-lein, dywedodd 43% fod y Gymraeg yn 'annaturiol' ac felly'n rhwystr i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

Beth oedd angen newid?

Yr arfer cyffredinol gan sefydliadau, wrth gynhyrchu a chyhoeddi deunyddiau yn ddwyieithog, oedd i lunio a pharatoi'r cynnwys yn Saesneg yn gyntaf ac yna ei gyfieithu

yn uniongyrchol i'r Gymraeg. Ar brydiau, gall y cynnwys Saesneg fod yn anodd ddarllen a'i ddeall. Mae hyn, yn ei dro, yn gwneud y gwaith o gyfieithu yn anodd ac yn debygol o arwain at gamddehongli neu bod angen i gyfieithwyr dreulio amser prin yn holi cydweithwyr am ystyr a chyd-destun y cais cyfieithu. Ar ei waethaf, mae'n golygu nad oes cyfle i fireinio ac adolygu'r Saesneg, ac felly bod y fersiwn Gymraeg (fel ôl-ystyriaeth) yn adlewyrchu gwendidau'r fersiwn Saesneg.

Er bod llawer o'r cynnwys Cymraeg yn aml yn gywir, mae adborth defnyddwyr yn dangos mai un o'r prif rwystrau wrth geisio defnyddio gwasanaethau Cymraeg oedd y ffaith bod yr iaith yn rhy ffurfiol ac yn annaturiol.

Casglwyd bod angen gwella profiad y defnyddiwr os am annog siaradwyr Cymraeg i ddewis a defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg. Os am weld mwy yn dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg felly, mae angen sicrhau bod y cynnwys a gâi ei gyhoeddi yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn hawdd ei ddeall.

Penderfynwyd y dylid ystyried y Gymraeg ym mhob cam o ddylunio cynnwys yn hytrach na chyfieithu deunydd terfynol Saesneg. Y nod felly oedd canfod dull o ddylunio a pharatoi cynnwys oedd rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg o fewn y broses ddylunio, yn hytrach na'i hystyried ar diwedd. Dylid dylunio cynnwys yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd er mwyn sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu hystyried yn gyfartal.

Beth yw ysgrifennu triawd?

Mae ysgrifennu triawd yn adeiladu ar y dechneg adnabyddus o ysgrifennu pâr, sy'n dod ag arbenigwr pwnc penodol a dylunydd cynnwys ynghyd i weithio ar un darn o waith i greu cynnwys gyda'i gilydd ar yr un pryd. Mae ysgrifennu triawd yn ychwanegu trydydd person, sef y cyfieithydd Cymraeg.

Mae'n bwysig nodi nad dull amgen o gyfieithu yw ysgrifennu triawd. Yn hytrach dull sydd yn cyflwyno egwyddor allweddol, sef cydweithio i ddylunio gwasanaethau gwell yn y ddwy iaith. Mae hyn yn golygu rhannu cyfrifoldeb am gywirdeb, eglurder a defnyddioldeb cynnwys rhwng arbenigwyr pwnc, arbenigwyr cynnwys a'r cyfieithydd. Gall ysgrifennu triawd ddigwydd mewn person neu o bell. Yn ymarferol, gellir drafftio y fersiwn Gymraeg a Saesneg yr un pryd drwy gael dwy ddogfen wag ar sgrin neu un ddogfen sy'n defnyddio tabl/colofn i roi'r ieithoedd ochr yn ochr â'i gilydd.

Pan yn barod i ddechrau ysgrifennu gall y tri unigolyn dan sylw drefnu a chytuno ar y dasg benodol y bydd pob un ohonynt yn ei wneud. Er enghraifft, mae'r cyfieithydd yn ysgrifennu'r cyfieithiad Cymraeg yn seiliedig ar y fersiwn Saesneg. Ar yr un pryd, efallai y bydd y fersiwn Saesneg yn gwella ar sail y wybodaeth a ddysgwyd wrth weithio ar y fersiwn Gymraeg. Mae'r ymchwilydd defnyddiwr yn gwirio i weld a yw'r cynnwys yn ateb anghenion y prosiect ac anghenion y defnyddwyr. Bydd y dylunydd yna'n arwain ar yr elfennau gyda strwythurol, hygyrchedd a chynhwysiant.

Rhoi'r arfer ar waith

Bu i swyddogion CGCD yn llwyddiannus wrth gynhyrchu Grant Hanfodion Ysgolion ysgrifennwyd drwy'r dull hwn. Nod y prosiect oedd gwneud y broses o gael mynediad at

gymorth costau byw yn haws i bobl. Bu CGCD yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gyd-ddylunio cynnwys dwyieithog.

Dangosodd ymchwil nad oedd digon o bobl sy'n gymwys ar gyfer y grant yn ei hawlio oherwydd nad oedd ganddynt y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Dywedodd rhai defnyddwyr na allent ddefnyddio'r gwasanaethau yn Gymraeg a chawsant eu gorfodi i ddefnyddio'r Saesneg yn lle hynny. Roedd yr ymchwil gyda defnyddiwr yn galluogi CGCD i ddeall eu anghenion yn well a dylunio cynnwys oedd yn diwallu yr anghenion hynny.

Trwy gydweithio gyda'r awdurdodau lleol lluniwyd cynnwys dwyieithog oedd yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr. Roedd y cynnwys yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, waeth beth fo iaith neu gefndir diwylliannol y defnyddiwr. Profwyd y cynnwys gyda defnyddwyr yn y ddwy iaith, a chafwyd adborth cadarnhaol yn datgan bod y cynnwys a luniwyd yn glir, naturiol a syml yn y ddwy iaith.

Pa hyfforddiant oedd ei angen ar staff cyn mynd ati i roi tro ar Ysgrifennu Triawd?

Ychydig iawn o hyfforddiant oedd ei angen i weithredu ysgrifennu triawd o fewn y CGCD. Cyn rhoi y cynllun ar waith roedd angen diffinio'r broses a'r strwythur o fewn y llif gwaith cynnwys a oedd yn bodoli eisoes. Mae'n bosibl y byddai angen i sefydliadau eraill sydd am fabwysiadu'r dull o fewn eu gwaith hwy ymgyfarwyddo â sut mae'r broses yn gweithio yn ymarferol a'i hymarfer gyda un darn o waith syml i gychwyn. Mae CGCD wedi cyhoeddi [llawlyfr Ysgrifennu Triawd](#) i'w brynu neu lawrlwytho sydd yn cynnig arweiniad a chynghor pellach.

Mae'n bwysig nodi y dylai sefydliadau fod yn ymwybodol o egwyddorion gweithio yn ystwyth a'r cysyniad o ddylunio deunydd dwyieithog sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr (*user-centered design* neu *UCD*). Mae ffordd ystwyth o weithio yn golygu cynnull pawb at ei gilydd er mwyn dod o hyd i'r ffyrdd gorau a mwyaf effeithiol o gwblhau tasg sydd yn canolbwyntio ar sicrhau profiad gwell i'r defnyddiwr.

Mae UCD yn chwarae rhan allweddol mewn ysgrifennu triawd gan ei fod yn ymwneud â blaenoriaethu anghenion defnyddwyr, sef yn yr achos hwn, defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg. Mae gan bawb rôl i'w chwarae ac mae'r dylunwyr cynnwys yr un mor hanfodol â'r cyfieithydd gan fod ganddynt yr arbenigedd a'r dealltwriaeth ar sut orau i greu strwythur, eglurder ac ystyried anghenion hygyrchedd.

Mae cynnal ymchwil gyda defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn ddull hynod effeithiol o ddysgu a deall beth yw anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg. Gall ymchwil perthnasol fod yn gymorth i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu.

Beth yw manteision Ysgrifennu Triawd?

Mae ysgrifennu triawd yn feddylfryd newydd, yn ffordd wahanol o weithio. Mae dylunio cynnwys yn y ddwy iaith o'r cychwyn, yn fwy effeithlon, yn arbed amser ac yn arwain at gynnwys o ansawdd gwell.

Y manteision yw bod y cyfieithydd yn deall cyd-destun y cynnwys y mae angen ei ysgrifennu sydd yn arwain at greu cynnwys sydd yn fwy hygyrch a chynhwysol. Diwellir anghenion defnyddwyr yn y ddwy iaith gan fod y Saesneg hefyd yn aml yn gliriach ac yn symlach o ganlyniad. Mae'r cynnwys felly yn well yn y ddwy iaith.

Nid yw dylunio cynnwys fel triawd yn golygu amser na gwaith ychwanegol. Mewn gwirionedd, mae'n lleihau'r galwadau diangen, e-byst a chyfarfodydd sydd eu hangen ar gyfer newidiadau ac eglurhad i'r testun neu cynnwys. Mae dulliau cyfieithu traddodiadol yn aml yn golygu bod angen cyfathrebu nol ac ymlaen rhwng y dylunydd, arweinydd a'r cyfieithydd. Yn aml mae'r cyfieithydd wedi ei ynysu o'r broses gynllunio ac felly mae'r cyd-destun aneglur. Mae'n bosibl bod gwallau hefyd yn y cynnwys terfynol a gynhyrchwyd gan y cyfieithydd, gan arwain at ddryswch i ddarllenwyr a'r angen i addasu'r cynnwys ymhellach yn nes ymlaen. Mae ysgrifennu triawd yn arbed amser oherwydd ei ddull cydweithredol a strwythuredig, ac oherwydd ei effeithlonrwydd, gall arbed arian hefyd.

Pa gyngor fydddech chi'n ei gynnig i sefydliad sydd yn awyddus i roi tro ar Ysgrifennu Triawd?

Y dull mwyaf effeithiol o ddeall ysgrifennu triawd yw ei roi ar waith mewn sefydliad a rhoi cynnig arni.

Mae'n debygol y bydd angen dylanwadu ar arweinwyr mewn rhai meysydd i fabwysiadu'r ffordd hon o weithio. Gallai'r rhain fod yn:

- Arweinwyr ac arbenigwyr cyfieithu
- Arweinwyr polisi
- Dylunwyr a rheolwyr gwasanaethau

Mae ysgrifennu triawd yn gweithio'n dda pan fydd pawb sy'n cymryd rhan yn cydweithio, yn meddu ar nodau clir ac yn cyfathrebu'n effeithiol. Dylid ei hystyried yn broses hamddenol yn hytrach nag un ffurfiol gan nad oes angen i unrhyw beth a gynhyrchir fod yn ddrafft terfynol o reidrwydd, gall fod sesiynau eraill i ddilyn.

Mae'n bosib y bydd angen herio agwedd a dulliau'r rhai nad ydynt erioed wedi creu cynnwys yn y modd hwn o'r blaen er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr angen i roi'r gynulleidfa a'u hanghenion yn ganolog i'w gwaith.

Dylai fod gan unigolion sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu triawd sgiliau penodol fel y gall y broses weithio'n llwyddiannus ac effeithiol. Dylai'r sgiliau gynnwys:

- dealltwriaeth o ffyrdd ystwyth o weithio a *UCD*,
- gwybodaeth yn yr ieithoedd penodol sy'n cael eu hysgrifennu
- dealltwriaeth o egwyddorion iaith glir,
- arbenigedd mewn dylunio cynnwys,
- dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr a ffocws ar gynhwysoldeb a hygyrchedd.

Mae'n bwysig casglu adborth ar ôl sesiwn Ysgrifennu Triawd gan y rhai a gymerodd ran oherwydd gallai hyn helpu i wella'r broses fel y gall fod yn fwy llwyddiannus ar gyfer y tro nesaf.

Manylion cyswllt

Sefydliad: Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

Gwefan: <https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru>

Swyddog cyswllt: Osian Jones (Osian.jones@gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru)

Casgliad Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd ac mae angen i bobol Cymru gael hyder yn y gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig iddynt. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau yn hawdd eu deall a'u defnyddio, a bod ansawdd profiad y defnyddiwr yn gwbl gyfartal yn y ddwy iaith. Ni fyddwn yn gweld cynnydd yn eu defnydd tan i hynny gael ei wireddu.

Mae ein hymchwil yn dangos fod y gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan sefydliadau cyhoeddus yn cynyddu o hyd, ac mae'n bwysig felly sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r gwasanaethau hynny. Mae angen rhoi egni i gynllunio a meddwl o'r newydd sut mae darparu gwasanaethau Cymraeg syml a hawdd eu deall sy'n rhoi'r defnyddiwr yn y canol. Un o sgil effeithiau gwych hyn yw bod yr ymarferiad yn aml yn bwrw goleuni ar bethau nad ydynt yn gweithio'n dda yn y Saesneg chwaith - mae pob defnyddiwr ar ei ennill felly!

Rwy'n croesawu pob ymdrech i feddwl yn arloesol am sut mae gwella'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Mae'n glir y gall Ysgrifennu Triawd gyfrannu yn sylweddol at wella safon ac ansawdd gwasanaethau cyhoeddus, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg.